

Cais am ganiatâd cynllunio amlinellol gyda rhai materion wedi'u cadw'n ôl

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Cais am ganiatâd cynllunio amlinellol gyda'r materion i gyd wedi'u cadw'n ôl

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

Ar y cyfan, caiff y ffurflen Cais am Ganiatâd Cynllunio Amlinellol ei defnyddio i ganfod, ar gam cynnar, a yw cynnig yn debygol o gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio, cyn yr eir i unrhyw gostau sylweddol.

Mae'r math hwn o gais cynllunio yn caniatáu i lai o fanylion am y cynnig gael eu cyflwyno. Gellir cytuno ar y manylion hyn yn dilyn cais "materion sydd wedi'u cadw'n ôl" ar gam diweddarach.

Gall materion sydd wedi'u cadw'n ôl gynnwys y canlynol:

- **ymddangosiad** - agweddau ar adeilad neu le sy'n effeithio ar y ffordd y mae'n edrych, gan gynnwys y tu allan i'r datblygiad
- **mynediad** - hygyrchedd pob llwybr i'r safle ac oddi yno, yn ogystal â'r ffordd y mae'n cysylltu â ffyrdd a llwybrau troed eraill y tu hwnt i'r safle
- **tirlunio** - gwella neu ddiogelu amwynderau'r safle, yr ardal a'r ardal gyfagos, a allai gynnwys plannu coed neu wrychoedd fel sgrin
- **diwyg** - yn cynnwys adeiladau, llwybrau a manau agored o fewn y datblygiad a'r ffordd y maent wedi'u gosod allan mewn perthynas ag adeiladau a manau y tu hwnt i'r datblygiad
- **graddfa** - yn cynnwys gwybodaeth am faint y datblygiad, gan gynnwys uchder, lled a hyd pob adeilad arfaethedig

Er bod rhai ceisiadau yn syml a gall penderfyniad gael ei wneud gan yr awdurdod cynllunio heb wybodaeth fanwl, efallai y bydd angen rhoi mwy o wybodaeth ar gyfer cynigion eraill. Bydd eich awdurdod lleol yn gofyn i chi roi rhagor o fanylion os oes angen gwneud hynny.

Mae'n syniad da siarad â'r awdurdod lleol ynghylch faint o wybodaeth a allai fod ei hangen cyn i chi gyflwyno eich cais cynllunio.

Unwaith y caiff caniatâd cynllunio amlinellol ei roi, rhaid gwneud cais 'materion sydd wedi'u cadw'n ôl' o fewn tair blynedd i'r caniatâd (neu lai o amser os nodir hynny gan amod sy'n rhan o'r gymeradwyaeth amlinellol wreiddiol). Rhaid i fanylion y cais fod yn unol â'r gymeradwyaeth amlinellol, gan gynnwys unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd.

Yn aml, mae'n ddefnyddiol trafod eich cynnig gyda'ch awdurdod lleol cyn i chi gyflwyno eich cais - 'cyngor cyn gwneud cais' y'i gelwir'. Fel arfer, bydd gan eich awdurdod lleol fanylion ynghylch sut i wneud hyn ar ei wefan.